The Scottish Parliament
Pàrlamaid na h-Alba

**Y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Cyllid – Finance Committee**

**Northern Ireland Assembly**

Y Gwir Anrhydeddus Rachel Reeves,
Canghellor y Trysorlys

Copi at: Pwyllgor y Trysorlys; y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol; Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon

**24 Medi 2024**

Annwyl Ganghellor,

# Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid

Mae Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid (y Fforwm), sy'n cynnwys Pwyllgorau Cyllid y cenhedloedd datganoledig, yn edrych ymlaen at weithio gyda chi yn eich rôl newydd fel Canghellor y Trysorlys.

Sefydlwyd y Fforwm ym mis Mehefin 2022 gan Bwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban a Phwyllgor Cyllid Senedd Cymru, gyda Phwyllgor Cyllid Cynulliad Gogledd Iwerddon yn ymuno'n ddiweddarach yn dilyn etholiadau diweddar Stormont. Sefydlwyd y Fforwm i roi llais cyfunol i'r Pwyllgorau Cyllid yn y deddfwrfeydd datganoledig i godi materion o ddiddordeb a phryder cyffredin gyda'r gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU. Mae'r Fforwm hefyd yn darparu cyfleoedd i rannu gwybodaeth, i glywed oddi wrth Weinidogion perthnasol, ac i ystyried heriau yr ydym oll yn eu hwynebu.

Ysgrifennom at eich rhagflaenydd ym mis Mawrth 2024 yn mynegi ein siom am ddull cyffredinol ymddangosiadol Gweinidogion a swyddogion y Trysorlys ar y pryd i wrthod gwahoddiadau i siarad â'n priod gyfarfodydd Pwyllgor, yn ogystal â'n cyfarfod Fforwm diwethaf a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Mawrth 2024.

Rydym yn nodi uchelgais Prif Weinidog y DU i greu cydweithrediad newydd gyda gwleidyddion o wahanol bleidiau gwleidyddol a gobeithiwn y bydd hyn yn golygu dychwelyd at ddull adeiladol Gweinidogion y Trysorlys o Lywodraethau cynharach y DU. Fel y gwyddoch, mae cyllidebu effeithiol yn hanfodol yng nghyd-destun y pwysau cyllidol cyffredin a wynebir gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae rhagor o ddatganoli a rhannu pwerau dros y blynyddoedd diwethaf hefyd wedi arwain at gysylltiadau agosach rhwng penderfyniadau cyllidebol yn y DU a'r gwledydd datganoledig. Felly, mae trafod y materion hyn gyda Thrysorlys EF yn bwysig iawn i rolau ein Pwyllgorau wrth ddwyn ein llywodraethau datganoledig i gyfrif am eu penderfyniadau trethiant a gwariant.

Mae'r Fforwm yn croesawu'n fawr eich bwriad i gynnal adolygiadau gwariant bob dwy flynedd, gydag isafswm cyfnod cynllunio o dair blynedd, er mwyn osgoi ansicrwydd i adrannau a dod â sefydlogrwydd i gyllid cyhoeddus. Byddem hefyd yn croesawu eich cymorth o ran rhoi rhagor o sicrwydd i’r Seneddau a llywodraethau datganoledig ynghylch amseru digwyddiadau ariannol mawr a rhannu gwybodaeth yn gynharach. Mae hyn mewn perthynas ag amcangyfrifon atodol terfynol yn arbennig a all effeithio'n sylweddol ar y cynlluniau cyllideb yn ystod y flwyddyn pan fo llai o hyblygrwydd i lywodraethau datganoledig ymateb i newidiadau cyllidebol sylweddol.

Mae’r Fforwm yn awyddus i ail-agor y ddeialog â Thrysorlys EF ar y materion hyn, ac mae’n parhau’n barod i’ch croesawu chi a’ch cydweithwyr cyllid Gweinidogol i Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon i gael trafodaethau a gwaith craffu ffurfiol ar faterion cyllidebol. Byddem yn awyddus iawn i'ch croesawu i'r Fforwm i archwilio meysydd o ddiddordeb cyffredin ledled y DU.

Rydym felly yn eich gwahodd i roi gwybod inni sut yr hoffech ymgysylltu â’r Pwyllgorau Cyllid yn y Seneddau datganoledig.

Yn gywir,

Kenneth J Gibson

**Kenneth Gibson**
**Cynullydd**
**Y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd yr Alban**

**Peredur Owen Griffiths**
**Cadeirydd**
**Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**

*Matthew O'Toole*

**Mr Matthew O'Toole**
**Cadeirydd**
**Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Gogledd Iwerddon**